# Uwchgynllun Porth-gain: Datblygu Dyluniad Cysyniad – Cyflwyniad

Mae'r ymgynghoriad cyhoeddus canlynol wedi'i baratoi ar ran Cyngor Sir Penfro (CSP), Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (APCAP) a Pobol Porthgain. Ei nod yw cyflwyno cyfres o opsiynau ar gyfer y parth cyhoeddus, rheoli traffig ac ymyriadau priffyrdd ar gyfer pentref Porth-gain.

Parhad o brosiect Uwchgynllun Porth-gain a gynhaliwyd yn 2023 yw hwn. Nod paratoi uwchgynllun ar gyfer pentref Porth-gain oedd i fynd i'r afael â heriau gweithredol lleol tymhorol yn ymwneud â thwristiaeth, e.e. parcio, diogelwch a hygyrchedd, fel y nodwyd yn ystod dadansoddiad cychwynnol o'r lle a gweithdy uwchgynllun gyda thrigolion lleol yn gynnar yn 2023.

Cyflwynir yr opsiynau heddiw er mwyn caniatáu i'r cyhoedd gael dweud eu dweud, rhoi sylwadau ac adborth, ac os yn bosibl nodi opsiwn a ffefrir. O fewn yr opsiynau arfaethedig, rhoddwyd ystyriaeth i gyfres o feini prawf gwahanol, yr ydym unwaith eto yn ceisio adborth unigol arnynt. Mae crynodeb o'r themâu i'w gweld isod, gan gynnwys:



Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Pembrokeshire Coast National Park

Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru
Part Funded by Welsh Government

POBOL PORTHGAIN

### Parcio

Mae pob opsiwn yn cynnig trefniadau parcio ffurfiol (gan gynnwys cilfachau parcio i breswylwyr yn unig), ac eithrio Opsiwn E, sy'n canolbwyntio ar drafnidiaeth gynaliadwy. Gan fod pob opsiwn yn cyflwyno amrywiadau yn y cynllun parcio arfaethedig, mae'n arwain at wahanol niferoedd o leoedd parcio i bob un; fodd bynnag, nid oes unrhyw opsiwn yn cynnig llai o leoedd parcio na'r hyn sy'n bodoli ar hyn o bryd.

Nod creu mannau parcio ffurfiol yw lliniaru problemau parcio o fewn y pentref yn ystod y tymor twristiaeth, sydd ar hyn o bryd yn gallu effeithio'n andwyol ar y trigolion a chyflwyno goblygiadau o ran diogelwch, e.e. mynediad brys i'r pentref. Rhestrir y meysydd parcio cyhoeddus ffurfiol isod:

- Y maes ger yr harbwr
- Ymyl gogleddol yr ardal hamdden
- Ardal ganol y pentref
- Mynedfa'r pentref
- Cilfachau parcio ar hyd Heol Llanrhian

### Llif y Traffig

Mae pob opsiwn wedi dangos cyflwyno system unffordd newydd ar gyfer cerbydau yng nghanol y pentref.

Fodd bynnag, oherwydd bod yr opsiynau yn dangos gwahanol gynlluniau ffyrdd a pharcio, gall y man cychwyn ar gyfer y system unffordd amrywio rhwng opsiynau.

Nod ystyried system unffordd newydd yw creu amgylchedd lle ceir llai o geir yng nghanol y pentref gyda phwyslais yn lle hynny ar ddarparu llwybrau mwy llydan i gerddwyr a defnyddio mathau o arwyneb sy'n blaenoriaethu cerddwyr.

Mae Opsiwn E yn darparu dull gwahanol i'r pedwar opsiwn arall ac yn cyflwyno opsiwn trafnidiaeth gynaliadwy gydag ardaloedd gollwng oddi ar fysiau a mannau cyhoeddus yn lle rhai mannau parcio ffurfiol.

### Deunyddiau

Mae Porth-gain wedi'i lleoli ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro ac o fewn ardal gadwraeth; felly cynigir, ar gyfer unrhyw ymyriadau newydd, bod y deunyddiau a ddefnyddir yn gydnaws â'r amgylchedd a phalet deunyddiau presennol Porth-gain. Byddai hyn yn cael ei adlewyrchu ym mhob opsiwn arfaethedig.

Y nod o ddefnyddio palet o ddeunyddiau traddodiadol a chydnaws yw gwarchod a gwella cymeriad presennol y pentref.

Gellir cyflawni hyn drwy ddefnyddio amrywiaeth o ddeunyddiau naturiol, e.e. carreg a llechi, yn lle deunyddiau arddull mwy trefol, e.e. tarmac a llinellau wedi'u paentio i nodi mannau parcio. Gellir gweld gwybodaeth ychwanegol ac enghreifftiau o ddeunyddiau arfaethedig ar y bwrdd deunyddiau o dan y themâu canlynol:

- Parcio
- Seddi
- Parth Cyhoeddus
- Arwyddion
- Tirlunio

### Arwyddion

Fel rhan o unrhyw opsiwn a ffefrir, mae cyfle i gynnwys arwyddion newydd o fewn y pentref a allai fynd i'r afael â'r canlynol:

- Gosod arwyddion 'Croeso i Borth-gain' ger mynedfa'r pentref
- Byrddau gwybodaeth a map o'r pentref
- Mynd i'r afael â pharcio dros nos
- Amlygu meysydd parcio i breswylwyr yn unig
- Nodi ardaloedd gweithredol y pentref, e.e. man parcio cychod

Y nod yw cadw'r arwyddion yn fach a sicrhau eu bod yn cyd-fynd â chymeriad y pentref. Gellir gweld gwybodaeth ychwanegol ac enghreifftiau o arwyddion arfaethedig ar y bwrdd deunyddiau.

### Parth Cyhoeddus

Mae pob opsiwn yn anelu at ddarparu gwelliannau i barth cyhoeddus presennol y pentref trwy gulhau'r ffordd bresennol a chreu palmentydd mwy amlwg drwy dirlunio, e.e. plannu arfordirol a defnyddio deunyddiau naturiol i ddiffinio'r gwahaniad.

Bydd ystyriaethau eraill yn cynnwys: seddi, seilwaith beiciau, a mathau o arwyneb sy'n hygyrch ac yn rhoi blaenoriaeth i gerddwyr lle bo hynny'n berthnasol,

e.e. arwyneb cyffyrddol ar groesfannau a gwahaniaethau gweledol i'r rhai ag amhariad ar eu golwg.

Gellir gweld gwybodaeth ychwanegol ac enghreifftiau o ddeunyddiau a phlannu arfaethedig ar gyfer y parth cyhoeddus ac wrth dirlunio ar y bwrdd deunyddiau.

theurbanists

# Uwchgynllun Porth-gain: Datblygu Dyluniad Cysyniad – Opsiynau

Isod, mae pum opsiwn dylunio rhagarweiniol wedi’u harddangos fel rhan o ymgynghoriad cyhoeddus Porthgain i Bawb. Mae pob opsiwn yn amlygu gwybodaeth allweddol megis meysydd parcio ffurfiol, niferoedd cilfachau parcio, mannau cyhoeddus, a gwaith tirlunio newydd. Mae’r opsiynau hyn yn ffurfio’r rhestr hir o opsiynau a ddyluniwyd ac maent yn seiliedig ar adborth a gafwyd drwy’r gweithdai yn 2023.

Trwy drafodaethau mewnol gyda’r grŵp llywio a rhanddeiliaid allweddol arbenigol (ym meysydd hygyrchedd, ecoleg a cadwraeth, er enghraifft), a thrwy ein gwaith ein hunain gydag ymchwiliadau tir, mae dau opsiwn (B ac E) wedi’u tynnu’n ôl rhag ystyriaeth bellach ar hyn o bryd.

Roedd Opsiwn B yn cyflwyno her o ran llif traffig ac nid ystyriwyd ei fod yn cyd-fynd â’r pentref.

Teimlwyd na fyddai’r symudiad dwysach o ran traffig, a’r isadeiledd angenrheidiol, trwy ganol y pentref yn edrych yn dderbyniol ac yn gweddu i’r cymeriad presennol.

Mae Opsiwn E yn cyflwyno opsiwn pecyn trafnidiaeth gynaliadwy, lle mae’r ffocws ar ddarparu gwell seilwaith ar gyfer bysiau a bysiau gwennol ac i weithredu cynllun parcio a theithio yn y dyfodol. Byddai’r opsiwn hwn yn lleihau nifer y lleoedd parcio sydd ar gael yn y pentref, ac yn cyfyngu ar y rhai sy’n weddill ar gyfer defnyddwyr anabl a thrigolion lleol ac i greu parthau gollwng.

Byddai’r opsiwn hwn hefyd angen cyllid yn y dyfodol o ran gwasanaeth bws amlach, yn enwedig yn ystod misoedd yr haf, ac opsiwn parcio a theithio penodedig. Byddai’r opsiwn hwn yn bodloni targedau Llywodraeth Cymrui hyrwyddo teithio llesol a chynaliadwy o fewn yr ardal, ond byddai’n dibynnu’n helaeth ar ddarpariaeth y gwasanaeth bws a allai ddeillio o’r Strategaeth Mynediad i’r Arfordir yn y dyfodol. Yr adborth cychwynnol a gafwydar yr opsiwn hwn oedd y gallai niweidio busnesau lleol, o ystyried y diffyg o ran lleoedd parcio yn union wrth eu hymyl. O ganlyniad i’r adborth hwn, mae Opsiwn E wedi’i dynnu’n ôl rhag cael ei ystyried ar hyn o bryd ond mae’n bosib y caiff ei ystyried yn ddiweddarach (y tu allan i gwmpas y prosiect hwn) yn unol â’r Strategaeth Mynediad i’r Arfordir.

Mae opsiynau A ac C/D yn cael eu nodi ar hyn o bryd fel ‘rhestr fer’ yr opsiynau sy’n weddill. Dangosir y rhain mewn lliw isod, ond hefyd yn fanylach ar fyrddau ar wahân. Mae opsiynau C/D wedi’u cyfuno gan fod ganddynt yr un cynllun, gydag Opsiwn D yn darparu mwy o seilwaith rheoli traffig.

Byddem yn croesawu eich sylwadau ar yr opsiynau a gyflwynwyd ac i chi lenwi’r arolwg i roi adborth.

Nod yr ymgynghoriad cyhoeddus hwn fydd nodi opsiwn terfynol a ffefrir y gellir ei symud ymlaen o fewn prosiect Porthgain i Bawb.

Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Pembrokeshire Coast National Park

Ariennir yn Rhannol gan **Lywodraeth Cymru**
Part Funded by **Welsh Government**


POBOL PORTHGAIN


Bydd yr arolwg yn parhau ar agor tan 8 Mawrth.


Ceir rhagor o wybodaeth a dolen i’r arolwg ar wefan Porthgain i Bawb:


**https://www.sir-benfro.gov.uk/strategaeth-drafnidiaeth/porthgain-i-bawb**


Fel arall, gallwch gysylltu â ni am ragor o wybodaeth a rhoi adborth drwy e-bostio: **porthgainforall@pembrokeshire.gov.uk**








theurbanists

# Uwchgynllun Porth-gain: Datblygu Dyluniad Cysyniad – Opsiwn A




**Pob opsiwn – Parcio ger Mynedfa'r Pentref**
Bwriedir cyflwyno mannau parcio ar ymyl y ffordd wrth ddynesu at Borth-gain ar hyd Heol Llanrhian. Byddai hyn yn cynnwys 14 x cilfach barcio a byddem yn cynnig defnyddio deunydd parcio ar ffurf grât-laswellt ar gyfer yr ardal hon gan ei fod yn gallu cydweddu â'r amgylchedd naturiol ac fe'i defnyddir yn aml ar ymylon ffyrdd. Gweler delwedd 1A ar y bwrdd deunyddiau er gwybodaeth.

**Strategaeth Tirlunio:**
Mae Opsiwn A yn cyflwyno ardaloedd o waith tirlunio newydd canolog o fewn maes parcio canol y pentref. Bydd gan yr holl ardal i'w thirlunio lwybrau cerdded yn rhedeg gerllaw a fydd yn cyd-fynd â'r ardal hamdden, gyda lleiniau parcio ar yr ymylon. Bydd hyn yn darparu dulliau draenio cynaliadwy yn ogystal â denu bioamrywiaeth i'r ardal. Gweler delweddau 5A a 5B ar y bwrdd deunyddiau i gyfeirio atynt.

Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Pembrokeshire Coast National Park

Ariennir yn Rhannol gan **Lywodraeth Cymru**
Part Funded by **Welsh Government**

POBOL PORTHGAIN

**Opsiwn A**

Mae Opsiwn A wedi'i nodi fel opsiwn 'rhestr fer' ac felly mae wedi'i gyflwyno yma'n fanylach nag opsiynau eraill.

Mae'r opsiwn hwn yn dangos mannau parcio ffurfiol, gan gynnwys parcio i breswylwyr yn unig a gwelliannau i lwybrau troed o amgylch y rhwydwaith ffyrdd presennol.

Mae **croesfan i gerddwyr** heb ei rheoli (gweler y mewnosodyn) ar ran ogleddol Heol Llanrhian. Dangosir hyn gan groesfan goblog gerrig ganolog er mwyn darparu arwyneb cyffyrddol sy'n gwneud y groesfan yn wahanol i wyneb y ffordd. Mae'r trim brics coch ar naill du'r groesfan yn darparu dynodiad gweledol ac mae'r deunydd yn berthnasol i dreftadaeth ddiwydiannol Porth-gain.

Mae'r lleoliadau arfaethedig ar gyfer **deunyddiau** wedi'u hanodi yma gan gylchoedd lliw sy'n cyfateb i'r themâu a'r delweddau a ddangosir ar y bwrdd deunyddiau.

theurbanists

# Uwchgynllun Porth-gain: Datblygu Dyluniad Cysyniad – Opsiwn D




**Opsiwn C – Trefniant Parcio Amgen**

**Strategaeth Tirlunio:**
Mae Opsiwn D (ac Opsiwn C) yn cyflwyno ardaloedd newydd wedi’u tirlunio o fewn maes parcio canol y pentref. Mae hyn yn cynnwys ardaloedd wedi’u plannu o amgylch y cilfachau parcio ffurfiol sy’n cynnwys planhigion sy’n addas ar gyfer y lleoliad arfordirol a’r hinsawdd ac sy’n cyd-fynd â nhw. Gweler delweddau 5A a 5B ar y bwrdd deunyddiau i gyfeirio atynt.

Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Pembrokeshire Coast National Park

Ariennir yn Rhannol gan **Lywodraeth Cymru**
Part Funded by **Welsh Government**

POBOL PORTHGAIN

**Opsiwn D (gydag C)**

Mae Opsiwn D wedi’i nodi fel opsiwn ‘rhestr fer’ ac felly mae wedi’i gyflwyno yma yn fanylach nag opsiynau eraill.

**Mae Opsiwn C** hefyd wedi’i nodi fel opsiwn ‘rhestr fer’. Mae’r opsiwn hwn yn cynnig yr un cynllun ag Opsiwn D, ond mae’n cynnig amrywiad ar y maes parcio ffurfiol ger yr harbwr. Felly mae is-gynllun o’r maes parcio hwn wedi’i gyflwyno hefyd.

Mae’r ddau opsiwn yn dangos mannau parcio ffurfiol, gan gynnwys parcio i breswylwyr yn unig a gwelliannau i lwybrau troed o amgylch y rhwydwaith ffyrdd presennol. Mae Opsiwn D (gydag C) yn cynnig mwy o gilfachau parcio yn ardal ganol y pentref, a rhai ardaloedd wedi’u tirlunio o amgylch ymylon y maes parcio ffurfiol hwn.

Mae’r lleoliadau arfaethedig ar gyfer **deunyddiau** wedi’u hanodi yma gan gylchoedd lliw sy’n cyfateb i’r themâu a’r delweddau a ddangosir ar y bwrdd deunyddiau.

theurbanists

# Uwchgynllun Porth-gain: Datblygu Dyluniad Cysyniad – Deunyddiau

Cyngor Sir Penfro · Pembrokeshire County Council

Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Pembrokeshire Coast National Park

Ariennir yn Rhannol gan **Lywodraeth Cymru**
Part Funded by **Welsh Government**

POBOL PORTHGAIN

Cynigir bod unrhyw ddeunyddiau newydd a ddefnyddir yn gweddu i amgylchedd naturiol y pentref a phalet deunyddiau presennol Porth-gain. Byddai hyn yn cael ei adlewyrchu ym mhob opsiwn arfaethedig.

Isod mae nifer o ddeunyddiau ac arddulliau posibl ar gyfer y gwahanol rannau o opsiynau dyluniad y cysyniad, gan gynnwys: parcio, arwynebau'r parth cyhoeddus, a chroesfannau, seddi ac arwyddion. Yr hyn sy'n thema drosfwaol yw hygyrchedd a sicrhau bod dyluniadau newydd yn darparu ar gyfer pob defnyddiwr, gan gynnwys defnyddwyr cadair olwyn a phobl ag amhariad ar eu golwg.

Rydym yn gofyn am eich sylwadau a'ch adborth ar y deunyddiau arfaethedig a ddangosir isod. Mae'r arolwg ar-lein ac ysgrifenedig yn darparu adran i chi ddarparu adborth a sylwadau ar y deunyddiau a ddangosir yma neu i nodi'r opsiynau o ran deunyddiau a ffefrir.



**Parth Cyhoeddus 3A – Palmant Cerrig:** Deunydd wyneb carreg lliw â gwead naturiol ar gyfer llwybrau. Mae palmant carreg naturiol yn darparu deunydd unedig o ansawdd uchel ym mannau cyhoeddus y pentref.



**Arwyddion 4A – Dur Corten:** Deunydd gwydn, amlbwrpas sy'n hawdd ei gynnal ac sydd ag esthetig diwydiannol a all fod yn berthnasol i hanes diwydiannol Porth-gain.



**Parcio 1A – Parcio Grât-laswellt:** Arwyneb parcio arwahanol a naturiol yr olwg y gellir ei osod ar ymylon ffyrdd.



**Dodrefn Stryd 2A – Mainc Bren:** Deunydd cynaliadwy a naturiol sy'n hawdd ei gynnal ac sy'n cyd-fynd â chymeriad pentref Porth-gain.



**Parth Cyhoeddus 3B – Waliau a Ffiniau Llechi:** Defnyddir deunydd llechi yn y pentref ar hyn o bryd. Mae'n cynnig esthetig ac arddull gyffyrddol a thraddodiadol.




**Arwyddion 4B – Arwyddion wedi'u Brandio:** Mae arwyddion sy'n cydweddu ac wedi'u dylunio'n dda yn darparu elfen unedig i'w chroesawu yn yr ardal. Gall y defnydd o liwiau naturiol a deunyddiau fel pren sicrhau bod arwyddion yn cyd-fynd â deunyddiau traddodiadol y pentref.




**Arwyddion 4E – Arwyddion Ffyrdd:** Gellid defnyddio arwyddion ffyrdd safonol ar gyfer terfynau cyflymder a system ffyrdd unffordd yn lle'r deunyddiau mwy pwrpasol a chydnaws.



**Parcio 1B – Graean gyda grid palmant mandyllog:** Arwyneb cadarn a sefydlog sy'n edrych yn naturiol. Mae gridiau plastig yn darparu arwyneb sy'n draenio'n rhwydd ac yn caniatáu i ddŵr glaw dreiddio trwodd i'r is-sylfaen. Mae gridiau plastig hefyd yn caniatáu gosod marcwyr i ffurfioli cilfachau parcio yn ystod y tymor brig y gellir eu tynnu ymaith unrhyw bryd.



**Dodrefn Stryd 2B – Seddi Wal Gerrig:** Mae yna waliau cerrig rwbel isel ar hyn o bryd ym Mhorth-gain a gellid dyblygu'r deunydd mewn mannau eistedd newydd. Mae defnyddio cerrig yn darparu cyswllt deniadol rhwng yr adeiladau a'r mannau agored o'u cwmpas, o ran lliwiau a gwead.



**Parth Cyhoeddus 3C – Croesfan Goblog:** Mae cerrig coblog o arddull draddodiadol wedi cael eu defnyddio yn y pentref i greu arwyneb. Gellir defnyddio'r cerrig crynion fel rhan o ddyluniad y groesfan i gerddwyr fel deunydd cyffyrddol a fyddai'n diffinio'r ardal groesi.




**Arwyddion 4C – Arwyddion Traddodiadol ar Ddeunyddiau Naturiol:** Gellid defnyddio lliw cydnaws ar arwyddion a'u gosod ar glogfeini mawr yn hytrach nag ar bolion metel neu




**Tirlun 5A – Plannu Arfordirol:** Gellir cyflwyno ardaloedd planedig i ardaloedd diffiniedig y parth cyhoeddus. Bydd hyn yn denu bioamrywiaeth ac yn gwella profiad synhwyraidd y pentref.



**Parcio 1C – Graean cywasgedig gyda marciau gwahanu coblog:** Arwyneb cadarn a sefydlog sy'n edrych yn naturiol gyda deunyddiau carreg naturiol yn cael eu defnyddio i nodi cilfachau parcio a ffiniau'r parth cyhoeddus.



**Dodrefn Stryd 2C – Meinciau Dur:** Gellid cyflwyno meinciau dur cadarn mewn mannau cyhoeddus er mwyn darparu seddi penodol ychwanegol.



**Parth Cyhoeddus 3D – Palmant ac Ymylon Brics Coch:** Mae deunydd brics coch yn ymwneud â'r hopranau brics presennol ger yr harbwr. Gellid defnyddio'r deunydd cydnaws hwn ar gyfer llwybrau'r parth cyhoeddus ac fel arwyneb ymyl croesfannau i gerddwyr, gan ddarparu dynodiad gweledol clir.




**Arwyddion 4D – Arwyddion Plac:** Gellid cyflwyno arwyddion plac llai ymwthiol o fewn y parth cyhoeddus ac i amlygu mannau parcio, e.e. parcio i breswylwyr yn unig.



**Tirwedd 5B – Manylion Diwydiannol a Cherrig:** Gellir cyflwyno deunyddiau diwydiannol gyda'r ardaloedd wedi'u tirlunio i adlewyrchu treftadaeth ddiwydiannol Porth-gain.

theurbanists